# Gwybodaeth yn ymwneud â threuliau Aelodau

15/03/2011

Annwyl

**Cais am Wybodaeth.**

Diolch am eich cais a ddaeth i law ar 15 Chwefror 2011 pan wnaethoch ofyn,

*Mewn cysylltiad â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, hoffwn ofyn am yr wybodaeth a ganlyn am eich aelod Rhestr Ranbarthol dros Ganolbarth a Gorllewin Cymru, Mr Alun Davies AC.*
*Allwch chi ddweud wrthyf drwy gyfrwng e-bost ble mae ei gyfeiriad cartref cyntaf?*
*Allwch chi hefyd roi rhestr imi o dreuliau am gostau petrol mae Mr Davies wedi eu hawlio yn ystod y 12 mis diwethaf?*

Nid ydym yn gallu darparu dim gwybodaeth yn ymwneud â chyfeiriad preswyl unrhyw aelod o'r Cynulliad. Roedd Gorchymyn Rhyddid Gwybodaeth (y Senedd a Chynulliad Cenedlaethol Cymru) 2008 (Saesneg yn unig), a ddaeth i rym ar 23 Gorffennaf 2008, yn diwygio paragraff 5 Rhan i Atodlen 1 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 fel y bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cael ei ystyried yn awdurdod cyhoeddus dim ond at ddibenion y ddyletswydd dan adran 1 o'r Ddeddf ar gyfer gwybodaeth *ac eithrio.... gwybodaeth yn ymwneud ag unrhyw gyfeiriad preswyl aelod o'r Cynulliad.* Mae hyn yn golygu nad oes rhwymedigaeth ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ryddhau gwybodaeth yn ymwneud â phreswylfannau Aelodau'r Cynulliad.

Mae'r wybodaeth y gofynnir amdani yn ddata personol, a gan nad oes dyletswydd i'w datgelu dan Ddeddf 2000, byddai datgelu'r data hynny gennym yn groes i'n dyletswyddau fel rheolwyr data dan Ddeddf Diogelu Data 1998.

Mae'r Cynulliad yn cyhoeddi manylion am hawliadau gan Aelodau'r Cynulliad dan Costau Swyddfa, Costau Teithio, a lwfansau Costau Ychwanegol ar y wefan yn y linc a ganlyn, lle mae cronfa ddata y gallwch chwilio ynddi. Ewch i

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 029 20 821813
E-bost/Email:Alison.Rutherford@wales.gov.uk
**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

http://www.cynulliadcymru.org/memhome/mem-expenses-2.htm a chliciwch ar y botwm 'Linc at Gronfa Ddata Lwfansau'.

Gallaf ddweud wthych mai'r swm a hawliwyd am dreuliau milltiroedd teithio rheolaidd gan Alun Davies rhwng Chwefror 2010 a Chwefror 2011 oedd £3,692

Mae eich cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yn
http://www.cynulliadcymru.org/abthome/abt-foi/abt-foi-cop-pub.htm
Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn.

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn gywir yn eich barn chi, neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Mae manylion am egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad wedi eu gosod allan yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan yn
http://www.cynulliadcymru.org/conhome/con-complaint.htm
Rhowch wybod i mi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Yn gywir

Alison Rutherford
Y Cydgysylltydd Mynediad at Wybodaeth
Cynulliad Cenedlaethol Cymru